

CYNGOR SIR

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun LL15 1YN, Dydd Mawrth, 10 Medi 2013 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Y Cyngorwyr Ian Armstrong, Raymond Bartley (Cadeirydd), Brian Blakeley (Is-Gadeirydd), Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, William Cowie, Ann Davies, James Davies, Meirick Davies, Richard Davies, Stuart Davies, Peter Duffy, Peter Arnold Evans, Hugh Evans, Bobby Feeley, Carys Guy, Huw Hilditch-Roberts, Colin Hughes, Rhys Hughes, Huw Jones, Pat Jones, Gwyneth Kensler, Geraint Lloyd-Williams, Jason McLellan, Win Mullen-James, Bob Murray, Peter Owen, Dewi Owens, Arwel Roberts, Gareth Sandilands, David Simmons, Barbara Smith, David Smith, Julian Thompson-Hill, Joe Welch, Cefyn Williams, Cheryl Williams, Eryl Williams a/ac Huw Williams

HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (MM), Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM), Uwch Beiriannydd, Rheoli Perygl Llifogydd (WH), Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (GW), Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles (SE), Pennaeth Cyllid ac Asedau (PMc), Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (SP) a Gweinyddwr Pwyllgorau (SLW).

Ymchwilwyr Llifogydd Annibynnol:
Dr Jean Venables, Clive Onions a John Young.

1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cyngorwr(wyr)
Martyn Holland, Hugh Irving, Alice Jones, Margaret McCarroll, Barry Mellor,
Merfyn Parry, Paul Penlington a/ac Bill Tasker

Croesawodd y Cadeirydd y Cyngorwyr Peter Owen i gyfarfod y Cyngor yn dilyn salwch hir.

Croesawodd y Cadeirydd y Cyngorwyr Richard Davies hefyd a oedd wedi bod yn yr ysbyty am gyfnod byr.

Yna rhoddodd y Cadeirydd deyrnged i ddau o bobl arbennig iawn a fu farw yn ddiweddar. Roedd Jane Kennedy wedi marw'n dawel yn yr ysbyty ar ddiwedd mis Gorffennaf. Roedd llyfr cydymdeimlo wedi'i roi yn Ystafell yr Aelodau. A hefyd bu farw'r cyn-Gyngorwyr Richard Jones yn ddiweddar. Roedd meddyliau pawb gyda theuluoedd a chyfeillion Jane Kennedy a Richard Jones ar yr amser trist hwn.

Cafwyd munud o dawelwch fel arwydd o barch.

Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau y byddai arddangosfa yn Ystafell Gynadledda 1a a 2

gan Dave Evans, Rheolwr Prosiect, Swyddfa Rhaglen Gorfforaethol, o ran Ysgol Uwchradd newydd y Rhyl.

Cyn dechrau'r cyfarfod, roedd yr Arweinydd, y Cynghorydd Hugh Evans, am longyfarch swyddogion, gwasanaethau a gwirfoddolwyr a oedd yn rhan o'r Eisteddfod Genedlaethol ddiweddar a fu'n llwyddiant mawr. Roedd gwirfoddolwyr gan gynnwys swyddogion a phreswylwyr wedi gwneud cyfraniad mawr i sicrhau bod y digwyddiad wedi bod mor llwyddiannus.

Roedd yr Arweinydd am fynegi diolch i bawb a oedd yn rhan o hyn yn arbennig:-

- (i) Hywyn Williams a oedd wedi mynychu'r digwyddiad bob dydd ac a oedd wedi gweithio tuag at y digwyddiad dros y ddwy flynedd ddiwethaf.
- (ii) A hefyd Gareth Watson a oedd wedi gosod y Pafiliwn a oedd wedi dangos Sir Ddinbych ar ei gorau.

Byddai Hywyn a Gareth yn diolch i swyddogion ar ran y Cyngor.

Rhodddwyd llongyfarchiadau i Robat Arwyn, cyfansoddwr y gerddoriaeth ar gyfer y cyngerdd agoriadol.

Rhodddwyd llongyfarchiadau i'r Cynghorydd Meirick Lloyd Davies hefyd am ei wobwr yn yr Eisteddfod am wasanaethau i'r iaith Gymraeg.

Roedd Swyddogion yr Eisteddfod wedi bod yn canmol Cyngor Sir Ddinbych yn fawr o ran y modd yr oeddent wedi ateb yr her ar gyfer y digwyddiad. Roedd wedi bod yn fodel y gallai Awdurdodau Lleol eraill ei ddilyn a'i fabwysiadu yn y dyfodol. Cynigiwyd diolch i'r Cadeirydd a'i wraig am eu presenoldeb parhaus yn y digwyddiad. Roedd yr economi leol wedi elwa o lwyddiant y digwyddiad hefyd.

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

3 MATERION BRYD

Dim mater bryd wedi'i godi.

4 DYDDIADUR Y CADEIRYDD

Roedd rhestr o ddigwyddiadau dinesig a gynhaliwyd ar gyfer y Cyngor gan y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd ar gyfer y cyfnod rhwng 28 Mehefin 2013 a 28 Awst 2013 wedi'i dosbarthu cyn y cyfarfod.

Dywedodd y Cadeirydd fod Eisteddfod Llangollen a'r Eisteddfod Genedlaethol wedi bod yn hynod o lwyddiannus. Roedd y cyngherddau a gynhaliwyd yn yr Eisteddfod Genedlaethol wedi bod yn wych ac ym marn y Cadeirydd, hon oedd yr Eisteddfod orau erioed.

Diolchodd y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies i aelodau am eu llongyfarchiadau.

Mynegodd y Cynghorydd Hugh Jones ei ddiolch i bawb a fu'n rhan o'r Eisteddfod a hoffai ychwanegu ei ddiolch i Ruth Williams o'r adran dwristiaeth am y blodau hyfryd a'r baneri a oedd wedi gwneud i'r ardal edrych yn wych i bobl leol ac i ymwelwyr.

Dywedodd y Cadeirydd y dylai'r Cyngor anfon eu dymuniadau gorau i Sir Gaerfyrddin ar gyfer yr Eisteddfod yn 2014.

5 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 9 Gorffennaf 2013.

PENDERFYNWYD derbyn cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 9 Gorffennaf 2013 fel cofnod cywir.

6 ADRODDIAD YMCHWILWYR I'R LLIFOGYDD YN GLASDIR, RHUTHUN

Cyflwynodd y Cynghorydd David Smith, Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus, Adroddiad yr Ymchwiliwyr ar y llifogydd yn Glasdir, Rhuthun (dosbarthwyd eisoes) i roi gwybod i aelodau am ganfyddiad yr ymchwiliad annibynnol. Roedd yr ymchwiliad annibynnol wedi'i gynnal gan Dr Jean Venables o Crane Environmental Ltd, gyda chefnogaeth Clive Onions, Clive Onions Ltd a John Young, Edenvale Young Associates Ltd.

Roedd Dr Jean Venables wedi'i hargymell i Gyngor Sir Ddinbych gan Sefydliad y Peirianwyr.

Rhoddodd Dr Jean Venables amlinelliad byr o'i gyrfa. Roedd safonau wedi newid yn ddiweddar ac roedd technegau modelu wedi gwella. Roedd yr ymchwiliad wedi edrych ar y sefyllfa yng ngoleuni'r cyfarwyddyd a oedd ar gael pan wnaed penderfyniadau. Felly, ni fu'n syndod bod y lefel ar gyfer y bwnd ar sail cyfrifiadau presennol yn wahanol i'r bwnd a adeiladwyd yn wreiddiol. Er bod y lefel yn wahanol bellach, nid oedd hyn yn golygu bod y lefel wreiddiol yn anghywir yng ngoleuni'r cyfarwyddyd a'r wybodaeth a oedd ar gael ar y pryd.

Roedd Awdurdod Datblygu Cymru wedi adeiladu Ffordd Gyswllt y Gogledd yn Rhuthun (A525) gyda chylchfan i'r gogledd o Ruthun i roi mynediad i dir a oedd wedi'i neilltuo ar gyfer datblygiad. Roedd y Ffordd Gyswllt yn croesi gorlifdir naturiol Afon Clwyd ar arglawdd.

Roedd sicrwydd preswylwyr yn bwysig gan fod llifogydd yn achosi llawer o boen meddwl. Roedd preswylwyr angen sicrwydd bod y perygl o lifogydd yn cael ei reoli gan amddiffynfeydd llifogydd digonol. Mae angen i'r amddiffynfeydd hyn fodloni yswirwyr a gadael i breswylwyr gysgu'r nos.

Roedd amryw ddatrysiadau peirianeg wedi'u harchwilio i adfer lefel yr amddiffyniad. Barn y Tîm Ymchwilio oedd mai'r datrysiad a oedd yn cynnig y datrysiad cynharaf a mwyaf cost-effeithiol i ailosod yr amddiffynfeydd yn erbyn llifogydd o amgylch y datblygiad oedd codi uchder y bwnd. Yn y cyfamser, gellid rhoi bagiau tywod ar ben y bwnd nes i'r gwaith ddechrau i godi'r uchder.

Roedd awduron yr adroddiad annibynnol yn teimlo bod rhwystrau yn chwarae rhan sylweddol ac roedd y rhwystrau wedi'u nodi. Roedd rhwystrau wedi'u hachosi gan llystyfiant naturiol, malurion, gwastraff adeiladwyr a thoriadau gardd wedi'u golchi i lawr gan ddŵr y llifogydd.

Roedd maint y llifogydd yn ardal Glasdir wedi'i ystyried yn fanylach i bennu'r rôl oedd gan y sgriniau ar y ceuffosydd dan y Ffordd Gyswllt, ac yn enwedig lefel y rhwystrau.

Roedd lefel newydd arfaethedig y bwnd yn seiliedig ar ragdybiaeth o rwystr 95%.

Cymharwyd canlyniadau'r llif â chyfarwyddyd a gydnabyddir i bennu cyfnod dychwelyd bras y llifogydd a barnwyd ei fod yn tueddu at 1 mewn 100 mlynedd (h.y. rhwng 1% a 0.5% o siawns o ddigwydd mewn unrhyw flwyddyn).

Roedd y Tîm Ymchwilio wedi ystyried beth fyddai lefel arferol o amddiffyniad pe bai'r datblygiad hwn yn cael ei hybu yn awr, ac roeddent yn teimlo mai'r safon briodol fyddai lefel o amddiffyniad a ddarparwyd gan:

1 mewn 100 mlynedd + Lwfans Newid yn yr Hinsawdd, gyda 95% o rwystr ceuffosydd a 600mm bwrdd rhydd.

Roedd bwrdd rhydd o 600mm yn ofniad safonol ar gyfer ardaloedd preswyl sy'n gyfagos i ardaloedd llifogydd sensitif.

Roedd y Tîm Ymchwilio yn argymhell y dylid sefydlu trefn ymchwilio a chynnal a chadw ffurfiol o bob strwythur amddiffyn yn erbyn llifogydd, ceuffosydd a gorlifdir gyda chyfrifoldebau clir. Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gosod offer rhybuddio yn erbyn llifogydd ychwanegol a byddent yn sefydlu system adrodd gyda'r Cyngor a Phreswylwyr. Roedd yr un mor bwysig, er bod cyfrifoldeb dros y rhain gyda'r Awdurdodau, bod y preswylwyr yn ymwybodol o'r perygl o lifogydd, ac yn cydnabod bod angen iddynt adrodd yn syth am beryglon posibl, megis tipio anghyfreithlon ar y gorlifdir neu goed neu ganghennau wedi syrthio. Argymhellwyd sefydlu wardeiniaid llifogydd i fod â llinell gyswllt uniongyrchol gydag aelod o staff.

Roedd y Tîm Ymchwilio yn annog symud griliau o'r ceuffosydd a gosod pyst i atal malurion mawr.

Yn yr adroddiad, dywedwyd y byddai'r gwaith yn costio tua £250,000. Roedd Llywodraeth Cymru a Taylor Wimpey wedi addo cyllid.

Dywedodd y Cynghorydd David Smith wrth aelodau ei fod yn dymuno ychwanegu pedwerydd argymhelliad at yr adroddiad. Dyma'r argymhelliad:-

(4) Bod y Cyngor yn nodi bod nifer o faterion o ran y llifogydd a fu ar 27 Tachwedd 2012 yn dal i fod heb eu datrys yn ôl preswylwyr Glasdir a bod y Cyngor yn sicrhau bod swyddogion a chynghorwyr yn gweithio gyda phreswylwyr Glasdir i ddatrys y materion hynny.

Yna, gofynnodd y Cadeirydd i aelodau gyflwyno cwestiynau, fesul tri.

Dywedodd y Cynghorydd Hugh Hilditch-Roberts ar ran y preswylwyr, fod yr adroddiad wedi'i groesawu ond bod nifer o gwestiynau ar ôl i'w hateb. Dyma'r cwestiynau:-

- (i) Pe bai'r Ffordd Gyswllt wedi bod yn strwythur pont, a oedd yn wir na fyddem yn cael yr adroddiad hwn heddiw?
- (ii) A oedd cynllun yr amddiffynfeydd gwreiddiol yn erbyn llifogydd ar fai?
- (iii) Roedd llawer o asiantaethau wedi bod yn rhan o gynllun gwreiddiol Glasdir ac a oedd yr asiantaethau hynny yn gyfrifol?
- (iv) Llwybr arall ar gyfer llif rhag ofn y bydd rhwystr? Pam na ddigwyddodd hyn?
- (v) Pwy gynlluniodd y sgriniau gwastraff, a pham na chawsant eu gwirio am rwystrau?
- (vi) Pwy oedd berchen ar y system llifogydd?
- (vii) Pam nad oedd sôn am y dirlawnder ym mis Medi 2012 a allai fod wedi cyfrannu at y llifogydd ym mis Tachwedd 2012?

Dywedodd y Cynghorydd Bobby Feeley y byddai'r preswylwyr yn teimlo mwy o sicrwydd pe baent yn cael gwybod pwy oedd yn atebol am y llifogydd i sicrhau na fyddai digwyddiad o'r fath yn digwydd eto yn y dyfodol.

- (i) Pam nad oedd cofnodion cynnal a chadw?
- (ii) Pam yr adeiladwyd y Ffordd Gyswllt uwchben lefel yr ystâd?
- (iii) Yng ngoleuni'r newid hinsawdd a dderbyniwyd, pam na chafodd yr amddiffynfeydd gwreiddiol yn erbyn llifogydd eu hailasesu a'u diweddarau?
- (iv) A oedd ateb arall i ddefnyddio bagiau tywod ar ben y bwnd? Pe bai'r bagiau tywod yn dirlenwi, byddent yn ddiwerth.

Holodd y Cynghorydd Eryl Williams faint o ddŵr oedd ei angen o'r afon i lenwi'r ardal a mynd dros y bwnd a pha mor hir yr oedd wedi'i gymryd i lenwi oherwydd bod y geuffos wedi'i rhwystro. Mynegodd y Cynghorydd Williams ei bryder am faint o falurion coed a oedd yn syrthio i afonydd a sut byddant yn cael eu trin, oherwydd bod yr hen Asiantaeth yr Amgylchedd yn rhan o sefydliad mwy bellach.

Ymatebodd Dr Jean Venables. Nid oedd sôn am waith atal yn yr adroddiad. Rheoli Perygl Llifogydd oedd yr allwedd.

Roedd strwythur y Ffordd Gyswllt a adeiladwyd gan Awdurdod Datblygu Cymru wedi'i hadeiladu i'r safonau gofynnol ar y pryd. Roedd y sgriniau gwastraff wedi'u cynllunio i atal pobl rhag mynd i'r ceuffosydd. Roedd cymaint o falurion wedi'i achosi gan ddŵr y llifogydd fel y byddai sgrin o unrhyw gynllun wedi'i rhwystro.

Roedd ymwybyddiaeth o ddigwyddiad mis Medi 2012 ac roedd profiad ar hyd a lled y wlad o ddalgylchoedd yn dirlenwi'n llwyr.

O ran priodoli bai, nid oedd tystiolaeth o unrhyw benderfyniadau esgeulus.

Nid oedd bagiau tywod ar y bwnd yn ateb dymunol ond roeddent yn cynnig amddiffyniad yn y cyfamser dros y gaeaf cyn i uchder y bwnd gael ei godi yng ngwanwyn 2014.

Roedd llawer iawn o ddŵr ond nid ydym yn gwybod faint o amser a gymerodd i lenwi'r geuffos. Roedd angen cadw cyrsiau dŵr yn glir rhag malurion ac roedd camau gweithredu ar waith i fonitro'r sefyllfa yn y dyfodol.

Roedd datrysiadau dros dro ar waith nes i atebion parhaol gael eu cadarnhau erbyn gwanwyn 2014.

Mynegodd y Cynghorydd Stuart Davies bryder ynghylch pwy sydd â chyfrifoldeb am lanhau afonydd.

Cytunodd y Cynghorydd Rhys Hughes â phryderon y Cynghorydd Davies a mynegodd bryder am symud y griliau o'r ceuffosydd.

Cadarnhaodd Dr Jean Venables fod cyfrifoldeb am lanhau afonydd yn broblem genedlaethol yng Nghymru a Lloegr. Roedd yn hynod anodd glanhau prif afonydd a byddai angen dull amlasiantaeth.

Pan fyddai griliau ceuffosydd yn cael eu symud, byddai colofnau polion yn cael eu hychwanegu i ddal eitemau mawr gan eu hatal rhag llifo trwodd a rhwystro'r ceuffosydd.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies fod yr Adroddiad Annibynnol yn hynod o gynhwysfawr. Awgrymodd y Cynghorydd Davies y gallai cloddio twll mawr o dan y Ffordd Gyswllt fod yn ddatrysiad i alluogi dŵr i lifo trwodd.

Holodd y Cynghorydd Gwyneth Kensler am gost y gwaith a oedd ynghlwm yn enwedig oherwydd yr hinsawdd economaidd bresennol a gorfod gwneud toriadau.

Dywedodd y Cynghorydd Colin Hughes o ran y gost £250,000 gan gynnwys cyfraniad gan Lywodraeth Cymru a Taylor Wimpey, y byddai cyfraniad gan bartneriaid o fantais i'r preswylwyr lleol gan roi tawelwch meddwl iddynt.

Eglurodd y Cynghorydd Joan Butterfield y gofynnwyd i Gyngorau Tref ledled y sir fod ar wyladwriaeth o lifogydd ac roedd Cyngor Tref y Rhyl wedi cyflwyno Warden a byddai hyfforddiant yn digwydd y mis yma. Soniwyd hefyd yn un o'r cyfarfodydd a gynhaliwyd pam na ellid dal ffermwyr yn gyfrifol am afonydd ar eu tir.

Dywedodd Dr Jean Venables fod Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr yn edrych ar dirfeddianwyr i gynnal a chadw afonydd ar eu tir.

Byddai'n bwysig i Wardeiniaid adrodd yn ôl am rwystrau a thipio anghyfreithlon. Ni fyddai'n bosibl dargyfeirio dŵr heb ganlyniadau andwyol i eraill i lawr yr afon felly mae angen cydbwysedd.

Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol wrth aelodau mai ar gyfer cynyddu uchder y bwnd oedd mwyafrif y gost. Byddai rhwydwaith Wardeiniaid Llifogydd ar waith ar draws y sir.

Cynhaliwyd pleidlais am yr argymhellion a gyflwynwyd a chariwyd y bleidlais o 37 o blaid i 1 yn erbyn.

PENDERFYNWYD y byddai Aelodau yn amodol ar yr uchod yn :

- (i) *Nodi canfyddiadau'r ymchwiliad annibynnol*
- (ii) *Derbyn yr argymhellion a nodir yn Adroddiad yr Ymchwiliad*
- (iii) *Cyfarwyddo swyddogion y Cyngor i fwrw ymlaen â gweithredu'r argymhellion a nodwyd yn Adroddiad yr Ymchwiliad.*
- (iv) *Sicrhau bod y Cyngor yn nodi bod nifer o faterion o ran y llifogydd a fu ar 27 Tachwedd 2012 yn dal i fod heb eu datrys yn ôl preswylwyr Glasdir a bod y Cyngor yn sicrhau bod swyddogion a chynghorwyr yn gweithio gyda phreswylwyr Glasdir i ddatrys y materion hynny.*

Ar y pwynt hwn (11.55 am)

Ailddechreuodd y cyfarfod am 12.15 p.m.

Cyn dechrau gweddill y cyfarfod, rhoddodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Hugh Evans wybod i Aelodau mai Cyngor Sir Ddinbych oedd y Cyngor a berfformiodd orau yng Nghymru unwaith eto. Cyflawnwyd y llwyddiant hwn drwy sicrhau bod gwasanaethau'n cydweithio'n agosach a swyddogion ac aelodau'n cydweithio'n agosach. Canolbwynt Sir Ddinbych ar berfformiad oedd y mwyaf dwys yng Nghymru. Dymunai'r Arweinydd fynegi ei ddiolch i aelodau a swyddogion am eu rhan yn sicrhau bod Cyngor Sir Ddinbych yn un o'r cynghorau gorau yng Nghymru.

7 Y NEWYDDION DIWEDDARAF AM Y GYLLIDEB

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau Adroddiad Diweddariad y Gyllideb (dosbarthwyd eisoes) i roi gwybodaeth i Aelodau o ran y sefyllfa ddiweddaraaf o ran pennu cyllideb y Cyngor ar gyfer 2014/15.

Roedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar gymeradwyo cyfres gychwynnol o arbedion arfaethedig ar gyfer 2014/15. Daw'r arbedion arfaethedig hyn yn sgil proses Heriau Gwasanaeth sydd wedi ei chynnal yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

Roedd CLILC yn argymhell, at ddibenion cynllunio, bod Awdurdodau Lleol yn pennu lleihad arian parod o -4% yn 2014/15.

Yn ystod y tair blynedd ddiwethaf roedd Llywodraeth Cymru wedi ceisio dylanwadu ar benderfyniadau lleol drwy 'ddiogelu' cyllidebau addysg a gofal cymdeithasol.

Roedd parhau i roi'r sicrwydd yma i rai gwasanaethau ar lefel genedlaethol wedi golygu y gall gostyngiadau ariannol posibl effeithio'n wahanol ar feysydd heb eu diogelu ac na fyddai gan y cyngor yr hyblygrwydd i reoli'r effaith.

Hefyd, roedd data'r cyfrifiad wedi effeithio'n andwyol ar y cyngor, gan dynnu sylw at y ffaith fod gwir boblogaeth y cyngor yn is na'r amcangyfrif yn yr amcangyfrifon poblogaeth cenedlaethol. Roedd effaith ariannol y newid yn debygol o fod tua £3.1 miliwn ond roeddent yn dal i aros am eglurhad gan Llywodraeth Cymru am sut y byddai'r newid yn cael ei weithredu.

Roedd gwasanaethau ar hyn o bryd yn modelu senarios cyllideb ac yn nodi arbedion posibl. Byddai'r rhain yn cael eu cyflwyno i'r aelodau yn ystod gweithdai cyllideb ar 21 Hydref a 9 Rhagfyr. Byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Sir ar 3 Rhagfyr lle gellid cytuno ar arbedion a gefnogir gan aelodau etholedig a gellid canolbwyntio rhagor o egni ar unrhyw arbedion sy'n weddill i'w cytuno cyn i'r cyngor gytuno ar y gyllideb derfynol ar 4 Chwefror 2013.

Codwyd y materion canlynol yn dilyn trafodaethau:

- (i) Gofynnwyd i bwysau'r AHNE o £20,000 beidio â chael ei gynnwys yn Atodiad 1 yr adroddiad oherwydd bod Sir Ddinbych yn cyllido £130,000, Sir y Fflint y cyllido £111,000 a Wrecsam yn cyllido £5,000. Byddai cais yn cael ei anfon at bartneriaid i gynyddu eu cyllid i wrthweithio'r £20,000. Cynigiwyd ac eiliwyd y diwygiad.
- (ii) Mae gan Sir Ddinbych boblogaeth symudol na fyddai ar y gofrestr etholiadol ac na fyddai wedi cwblhau ffurflen cyfrifiad. Roedd hyn wedi bod yn broblem o'r blaen.
- (iii) Codwyd gofal dydd i'r henoed fel pryder a rhoddwyd enghreifftiau o ran anawsterau ag offer domestig yn Hafan Deg.
- (iv) Pe bai aelodau ar fyrddau sefydliadau fel y Ganolfan Grefftau, Ectarc ac ati, a fyddai hawl ganddynt i fod yn rhan o'r ddatl a phleidleisio ar y materion hynny?

Yn gyntaf, ymatebodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i'r pwynt a godwyd o ran aelodau a oedd ar fyrddau sefydliadau. Pe bai aelod yn cael ei benodi gan y cyngor hwn, roedd yr aelod wedi'i eithrio rhag bod â chysylltiad sy'n rhagfarnu ond byddai'n rhaid iddo ddatgan cysylltiad personol, ac felly, byddai'n gallu cymryd rhan mewn trafodaethau a phleidleisio.

Yna ymatebodd y Pennaeth Cyllid ac Asedau i'r cwestiynau eraill.

Ni fyddai problem o ran symud y £20,000 o Atodiad 1.

Roedd y cyfrifiad yn ddogfen ddata swyddogol. Roedd wedi gwaethygu yn achos Sir Ddinbych gan ei fod wedi'i wahanu yn ôl grŵp oedran, poblogaeth oedran ysgol a phoblogaeth yr henoed.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles y byddai angen i wasanaethau newid. Byddai Hafan Deg yn cael ei ddefnyddio i gynorthwyo pobl ag

ail-alluogi. Nid oedd penderfyniad wedi'i wneud o ran pa offer fyddai eu hangen yn Hafan Deg.

Eglurodd y Prif Weithredwr wrth aelodau fod amseroedd anodd o'u blaenau er bod Cyngor Sir Ddinbych yn gyngor hynod lwyddiannus.

Roedd y Cynllun Corfforaethol wedi'i osod cyn cael gwybod gan Lywodraeth Cymru am y toriadau ariannol o ran cyllid. Roedd y Cynllun Corfforaethol yn uchelgeisiol ac roedd yn sôn am symud y Cyngor ymlaen. Byddai diweddariad ar y Cynllun Corfforaethol yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Cyngor yn y dyfodol.

Pwysleisiwyd wrth aelodau bwysigrwydd mynychu gweithdai'r gyllideb ym mis Hydref a Rhagfyr 2013 pan fyddai trafodaethau manwl yn digwydd am yr arbedion effeithlonrwydd yn y dyfodol.

Cynhaliwyd pleidlais am yr argymhellion a gyflwynwyd a chariwyd y bleidlais o 33 o blaid i 1 yn erbyn.

PENDERFYNWYD y byddai Aelodau yn :

- (i) Nodi sefyllfa ddiweddaraf cyllideb 2014/15
- (ii) Cymeradwyo'r arbedion arfaethedig
- (iii) Symud pwysau'r AHNE o £20,000 fel a gytunwyd.

8 DATGANIAD POLISI TÂL

Cyflwynodd y Prif Weithredwr y Datganiad Polisi Tâl (dosbarthwyd eisoes) i aelodau i fodloni goblygiadau cyfreithiol y Cyngor o ran Deddf Lleoliaeth 2011. Gofynnwyd am gymeradwyaeth o ran y Datganiad Polisi Tâl a oedd wedi'i ddrafftio yn unol â gofynion 38 (1) Deddf Lleoliaeth 2011 a oedd yn cynnwys pob trefniant tâl presennol ar gyfer y grwpiau gweithlu yn y Cyngor, gan gynnwys Prif Swyddogion a gweithwyr ar y tâl isaf. Yr unig ddiwygiad i'w wneud i'r adroddiad oedd dan 4.3.1 oherwydd y ffaith fod pob aelod o staff, ar wahân i Brif Swyddogion, wedi cael codiad cyflog 1% a fyddai'n cael ei ôl-ddyddio i fis Ebrill 2013. Byddai'n cael ei dalu yn nhaliad mis Medi.

Cynhaliwyd pleidlais am yr argymhellion a gyflwynwyd a chariwyd y bleidlais yn unfrydol.

PENDERFYNWYD y byddai aelodau yn cymeradwyo'r Datganiad Polisi Tâl fel y'i diwygiwyd i sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â'i oblygiadau cyfreithiol dan Ddeddf Lleoliaeth 2011.

9 YMATEB YMGYNGHORIAD I'R COMISIWN AR LYWODRAETHU A DARPARU GWASANAETH CYHOEDDUS

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr Ymateb Ymgynghoriad i'r Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaeth Cyhoeddus (dosbarthwyd eisoes). Gofynnwyd i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth i'r Comisiwn ar chwe maes canolbwynt

allweddol: Perfformiad; Maint a Gallu; Cymhlethdod; Llywodraethu, Darparu ac Archwilio; Diwylliant ac Arweinyddiaeth a Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

Roedd y Prif Weithredwr wedi paratoi ymateb drafft dan bob un o'r penawdau. Roedd y drafft wedi'i ddsbarthu i aelodau ac roedd angen penderfyniad o ran p'un a ddylid cyflwyno'r drafft, wedi'i ddiwygio'n briodol gan aelodau, fel ymateb ffurfiol y Cyngor i'r galwad am dystiolaeth.

Yn ogystal â'r ymateb drafft, roedd y Prif Weithredwr wedi cyflwyno papur, "Arweinyddiaeth yng Nghyngor Sir Ddinbych" a oedd yn cynrychioli ei farn ei hun o ran sut yr oedd arweinyddiaeth a pherfformiad wedi gwella yn Sir Ddinbych ac yn cynnig hwn fel tystiolaeth i'r Comisiwn. Roedd hwn wedi'i ddsbarth i Aelodau.

O ran Llywodraeth Leol, roedd y Comisiwn yn ystyried a ddylid newid trefniadau sefydliadol presennol gan fod y Comisiwn wedi dod i'r casgliad nad oedd y 22 cyngor unedol presennol yn gynaliadwy.

Roedd yn ymddangos mai'r opsiynau mwyaf credadwy oedd :

Opsiwn 1 : mae 22 yn iawn, nid ydym o blaid newid y nifer hwn.

Opsiwn 2 : dylai dau gyngor ddisodli'r chwe chyngor yng Ngogledd Cymru.

Opsiwn 3 : rydym yn credu y byddai llai o gynghorau yn well ond nid oes gennym nifer mewn golwg.

Opsiwn 4 : rydym yn credu y gellir lleihau nifer y cynghorau yng Ngogledd Cymru i dri a gallai nifer o gynghorau llai yn Ne Cymru uno hefyd.

Opsiwn 5 : nid oes gennym farn.

Yn dilyn trafodaeth hir, codwyd y pwyntiau canlynol :

- (i) Cadarnhaodd y Cynghorydd Joe Welch ar ran y Grŵp Annibynnol fod y grŵp wedi cynnal trafodaeth ar y mater yn ddiweddar. Roedd cost yr ad-drefnu yn peri pryder. Byddai'r tarfu ar wasanaethau yn ystod yr ad-drefnu yn broblem. Byddai'r Grŵp Annibynnol yn dewis naill ai Opsiwn 1, 3 neu 4. Byddai'n rhaid i unrhyw newidiadau hirdymor fod o fudd i breswylwyr Sir Ddinbych.
- (ii) Dywedodd y Cynghorydd Joan Butterfield fod mwyafrif aelodau Llafur wedi ymateb fel unigolion. Byddai'r Grŵp Llafur yn anfon ymateb Grŵp a fyddai'n cael ei gopïo i bob aelod.
- (iii) Mynegodd y Cynghorydd Julian Thompson Hill bryder am yr effaith ar wasanaethau, cost ad-drefnu a'r ffaith fod perfformiad yn lleihau'n sylweddol yn ystod ad-drefnu. Nid y cynghorau mwy oedd y gorau o reidwydd.

Dywedodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Hugh Evans ei fod yn anodd iawn gan fod Sir Ddinbych mewn sefyllfa dda iawn ar hyn o bryd. Gallai Sir Ddinbych ddylanwadu ar y penderfyniad a wnaed gan y Comisiwn. Byddai rhagor o gyfrifoldeb ar gynghorwyr sy'n gweithio mewn ardal fwy. Roedd Sir Ddinbych mewn sefyllfa i ddylanwadu ar benderfyniad y Comisiwn.

Rhoddodd y Prif Weithredwr grynodedb o'r drafodaeth.

Cynhaliwyd pleidlais o ran pwy fyddai o blaid Cyngor Sir Ddinbych yn aros fel awdurdod unigol, ac roedd 25 o blaid a 2 yn erbyn.

Dywedodd sawl aelod eu bod yn gwrthwynebu lleihau nifer y cynghorau yng Ngogledd Cymru i un neu ddau Gyngor yn y dyfodol.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai'n drafftio ymateb a'i ddosbarth i Arweinwyr Grwpiau.

Cynhaliwyd pleidlais o ran yr argymhellion a gyflwynwyd ac fe'i cariwyd o 26 o blaid ac 1 yn erbyn.

PENDERFYNWYD:

- (i) Cyflwyno'r ymateb arfaethedig, fel y'i diwygiwyd yng Nghyfarfod y Cyngor, i'r Comisiwn fel tystiolaeth Cyngor Sir Ddinbych.*
- (ii) Awdurdodi'r Prif Weithredwr i ysgrifennu at y Comisiwn i nodi barn y Cyngor ar nifer yr awdurdodau lleol yn y dyfodol mewn ymgynghoriad ag Arweinwyr Grwpiau.*

10 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor (dosbarthwyd eisoes).

Roedd posibilrwydd y byddai eitem ychwanegol yn y cyfarfod ar 8 Hydref 2013 - Deddf Delwyr Metel Sgrap 2013 ond nid oedd wedi'i gadarnhau. Byddai'r mater yn cael ei gyflwyno yn y Cabinet.

PENDERFYNWYD y dylid cymeradwyo a nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor, yn amodol ar yr uchod.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.15 p.m.